Arholiadau
Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Astudiaethau Gwybodaeth

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch DDAU gwestiwn.

1. Beth yw ystyr y term 'Rhyddid Deallusol' yn eich barn chi? Trafodwch ei berthnasedd i'r gymdeithas heddiw. Rhowch enghreifftiau i ategu'ch ateb.

2. Sut y gellir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn addysg? Beth yw'r risgiau a'r manteision posibl?

3. Yn eich barn chi, pam mae cyhoeddi a gwerthu llyfrau print yn dal i fod yn ddiwydiant llewyrchus mewn oes o wybodaeth ddigidol?

4. Beth, yn eich barn chi, yw gwerth neu swyddogaeth barhaus y llyfrgell gyhoeddus yn yr 'oes wybodaeth'? Defnyddiwch nifer o enghreifftiau gwahanol i ategu eich dadl.

5. Diffiniwch a thrafodwch y termau 'newyddion ffug', 'twyllwybodaeth' a 'chamwybodaeth'. Pa risgiau posibl y maent yn eu codi? Wrth drafod, defnyddiwch ddigwyddiadau cyfoes o'r blynyddoedd diwethaf yn enghreifftiau.

6. Gall unigolion wynebu pob math o rwystrau wrth chwilio am wybodaeth a chael gafael arni. Disgrifiwch beth allai'r rhwystrau hyn fod, a pha fesurau y gellid eu rhoi ar waith i'w goresgyn.

7. Beth yw rhai o'r prif faterion i'w hystyried wrth ddefnyddio deunydd hanesyddol at ddibenion ymchwil?

8. Nid yw'n anodd i archifau ac amgueddfeydd gasglu treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r anawsterau'n dechrau wrth geisio sicrhau bod y deunydd a gasglwyd ar gael i'r cyhoedd, a bod modd iddynt ei ddefnyddio. Trafodwch.